



Hysbysiad Preifatrwydd

Sut ydyn ni'n casglu gwybodaeth disgyblion?

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion gennych yn uniongyrchol neu drwy'r Ffeil Drosglwyddo Gyffredin (FfDG) sy'n cael ei ddanfon tom o'r ysgol gynradd.

Mae data disgyblion yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol yr ysgolion. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth ddisgyblion yr ydych yn ei rhoi i ni yn hanfodol, rydym yn gofyn am ychydig ohoni ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn casglu'r data os oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgybl i ni neu os oes gennych ddewis yn hyn o beth a byddwch yn dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wneud i rannu'r wybodaeth hon gyda ni.

Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion

Ein prif seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'r wybodaeth hon yw:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'r gyfraith
- Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol

Mae'r data personol a gesglir yn hanfodol, er mwyn i'r ysgol gyflawni ei swyddogaethau swyddogol a bodloni gofynion cyfreithiol.

O bryd i'w gilydd gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon lle:

- rydych wedi rhoi eich caniatâd penodol i ni brosesu'r wybodaeth personol hon
- mae angen i ni ddiogelu buddiannau hanfodol eich plentyn

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion, at y dibenion canlynol:

- a) i gefnogi dysgu disgyblion
- b) i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrhaeddiad disgyblion
- c) i ddarparu gwasanaethau gofal bugeiliol, lles a iechyd
- d) i asesu safon ein gwasanaethau
- e) i gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, neu fanylion cyswllt brys)
- f) i gyflawni'r dyletswyddau statudol a osodir arnom gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth am ddisgyblion yw:

Rydym yn prosesu eich gwybodaeth i benderfynu ar geisiadau i'w derbyn i'r ysgol yn unol â

- Deddf Addysg 1996,
- Deddf Plant 1989

Ymhlith y categorïau gwybodaeth disgyblion rydym yn eu prosesu mae:

- gwybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion sy'n adnabod plentyn/person ifanc a manylion cyswllt rhieni a gwarchodwyr;
- gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol arbennig;
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol ac allanol;
- gwybodaeth am wreiddiau ethnig a chenedligrwydd plant a phobl ifanc (defnyddir hyn yn unig i baratoi crynodeb o ddadansoddiad ystadegol);
- manylion am statws mewnfudo plant a phobl ifanc (defnyddir hyn yn unig i baratoi dadansoddiad ystadegol cryno);
- y wybodaeth feddygol sydd ei hangen i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel tra yng ngofal yr ysgol/darparwr blynyddoedd cynnar;
- gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gamau disgyblu a gymerir;
- gwybodaeth am ymglymiad y gwasanaethau cymdeithasol â phlant a phobl ifanc unigol lle mae angen hyn i ofalu amdanynt

Sut rydym yn cadw data disgyblion

Er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth am ddisgyblion yn cael ei chadw'n ddiogel, mae gennym y rheolaethau/cyfyngiadau canlynol ar waith:

- ni chaiff y wybodaeth ei defnyddio at unrhyw ddiben ac eithrio'r rhai a nodir yn yr hysbysiad hwn
- bydd y wybodaeth yn cael ei chadw mewn systemau/lleoliadau diogel, gyda lefelau priodol o ddiogelwch, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol
- dim ond at ddibenion cyfreithlon a chyda lefel briodol o ddiogelwch sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol y caiff y wybodaeth ei rhannu
- dim ond am y cyfnodau y cytunwyd arnynt yn Atodlen Cadw Cyngor Dinas Casnewydd y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw, ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio. Mae'r Atodlen Cadw ar gael ar gais
- **Caiff yr wybodaeth ei chadw, ei defnyddio a'i rhannu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.**

Â phwy y byddwn yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Rydym yn rheolaidd yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gydag:

- Cyngor Dinas Casnewydd
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gwiriadau iechyd ysgolion)
- Llywodraeth Cymru
- Adran Addysg
- ParentPay
- SIMS
- Asesiad GL
- Evolve
- Canolfannau Addysg Awyr Agored Preswyl

- Colorfoto
- GRhR
- Athrawon i rieni
- HWB

Pam y byddwn yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud felly. Pan fyddwch yn rhoi eich caniatâd i wybodaeth eich plentyn gael ei chadw a/neu ei rhannu at unrhyw ddiben, gallwch dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg, drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data a enwir uchod.

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i ni drosglwyddo gwybodaeth benodol am ein disgyblion i Gyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru. Dim ond at ddiben penodol ac am gyfnod cyfyngedig o amser y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data, ac ar ôl hynny rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi'i ddinistrio. Rhaid i unrhyw ddadansoddiad a gynhyrchir ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na ellir adnabod disgyblion unigol. At ddibenion ymchwil sy'n ehangach nag addysg, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio technegau sy'n sicrhau bod y data'n ddiennw cyn i unrhyw ymchwil ddigwydd. Mae rhannu data diennw y tu allan i'r GDPR.

Am ba hyd y cedwir y wybodaeth?

Cedwir y data tan ben-blwydd y disgybl yn 25 oed neu drwy gydol y meini prawf sy'n sail i'r rheoliad statudol. Ar ôl y pwynt hwn bydd y data'n cael ei ddinistrio'n ddiogel neu gall fod yn ddiennw yn unol ag arferion gorau a'i ddefnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

Gwneud cais am fynediad at eich data personol

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Sylwer nad yw'r holl hawliau hyn yn absoliwt a bydd angen i ni ystyried eich cais ar ôl ei dderbyn. Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r ysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Mae gennych yr hawl i ofyn am y canlynol:

- cywiro eich data os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
- dileu eich data;
- cyfyngu prosesu eich data;
- arfer eich hawl i gludadwyedd data;
- gwrthwynebu'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Tynnu caniatâd yn ôl a'r hawl i gyflwyno cwyn

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio eich data, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i ni.

Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r ysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni all y Comisiynydd Gwybodaeth wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi cyflawni ein gweithdrefn gwyno. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF.

Swyddog Diogelu Data

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr Gwasanaethau Digidol
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR
E-bost: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Gwybodaeth Gyswilt yr Ysgol

Ysgol Gyfun Gwent is Coed,
Ffordd Dyffryn,
Dyffryn,
Casnewydd.
NP10 8BX
01633 851614
gwent.iscoed@newport.gov.uk

Diweddarwyd ddiwethaf

Efallai y bydd angen i ni ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd felly rydym yn argymhell eich bod yn ailedrych ar y wybodaeth hon o bryd i'w gilydd. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 2/10/20.